**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Economi ac Isadeiledd

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 11 Ionawr 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| N J Davies | L S Gibbard | P R Hood-Williams |
| J W Jones | M A Langstone | W G Lewis |
| P Lloyd | P M Matthews | T M White |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Caritas Adere | Gweithrediaeth Gyfreithiol |
| Phil Holmes | Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): O G James a/ac S M Jones

---

## 33 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 34 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi yr Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2017 fel cofnod cywir.

## 35 Yr Economi - Cyflwyniad gan Phil Holmes, Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Darparodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas gyflwyniad manwl ac addysgiadol ar 'Abertawe a'r Dinas-ranbarth.... Persbectif Economaidd'.

Roedd y manylion a ddarparwyd yn y cyflwyniad yn cynnwys: -

- Cyflwyno Abertawe...;
- Cysylltedd;
- Ystadegau Abertawe a'n Sectorau Strategol;
- Y Sylfaen Fusnes;

- Safleoedd Cyflogaeth Strategol;
- Arloesedd, dysgu, ansawdd bywyd, diwylliant, hamdden a chwaraeon;
- Prif ystadegau rhanbarthol;
- Yr heriau mawr;
- Ymateb i'r Fargen Ddinesig;
- Gweithgareddau adfywio lleol allweddol;
- Gweithio mewn partneriaeth;
- Rhaglen adfywio;
- Goblygiadau Brexit;
- Cynllun Gweithredu Ffyniant i Bawb a Chynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd y pwyllgor nifer o gwestiynau ac ymatebwyd iddynt yn briodol. Roedd y trafodaethau'n ymwneud â'r canlynol: -

- Cynhyrchedd, gwerth ychwanegol gros a chymariaethau ag awdurdodau eraill yn y rhanbarth;
- Cysylltiadau cludiant, cysylltedd, astudiaeth dichonoldeb bosib Metro Bae Abertawe a Llywodraeth Cymru sy'n edrych ar gydgysylltu rhwng rhanbarthau;
- Prosiect y Morlyn Llanw; gwella prif borth Ffordd Fabian i'r ddinas;
- Cynnwys cymunedau y tu allan i ganol y ddinas yn y newidiadau, gwella trafnidiaeth yng nghanol y ddinas a denu siopau mawr i Abertawe;
- Y Fargen Ddinesig - gwella rhagolygon cyflogaeth, hyfforddiant, sgiliau a hyder wrth weithio gyda phobl oedran gweithio;
- Effaith y prifysgolion yn Abertawe a'r gwaith sy'n cael ei wneud;
- Potensial safle Felindre;
- Hyder yn y broses gynllunio yn Abertawe.

**Penderfynwyd** ar y canlynol: -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad;
2) Cylchredeg y cyflwyniad i'r pwyllgor.

## 36 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2017/18.

Ychwanegodd fod yr eitemau canlynol wedi'u cynnig ar gyfer cyfarfod y pwyllgor ar 8 Mawrth 2018: -

1) Troi Stryd y Gwynt yn barth i gerddwyr;
2) Cerbydlu Gwyrdd.

**Penderfynwyd** ar y canlynol: -

1) Dylid nodi cynnwys yr adroddiad.
2) Ychwanegu'r eitemau ychwanegol a restrir uchod i gynllun gwaith y pwyllgor ar gyfer 2017/18.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.23 pm

**Cadeirydd**